Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Adroddiad ar weithredu cynigion Comisiwn y Gyfraith

2023-2024




Chwefror 2024

“A thrwy gyngor a chytundeb y doethion a ddaeth yno, archwiliwyd yr hen gyfreithiau, gadawyd rhai ohonynt i barhau, diwygiwyd eraill, a dilëwyd eraill yn gyfan gwbl, a gosodwyd rhai eraill o’r newydd.”

*Llyfr Iorwerth 1240*

OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG49306
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

## Rhagarweiniad

1. Mae Deddf Comisiynau'r Gyfraith 1965, fel y cafodd ei diwygio gan Ddeddf Cymru 2014, yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i adrodd yn flynyddol i Senedd Cymru ar y graddau y maent wedi gweithredu cynigion Comisiwn y Gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig.

2. Dyma'r nawfed adroddiad o'r fath; mae'n ymdrin â'r cyfnod o 15 Chwefror 2023 i 14 Chwefror 2024, ac yn rhoi diweddariadau ar y cynnydd a wnaed ar amrywiaeth o faterion sydd wedi bod yn destun argymhellion Comisiwn y Gyfraith. Mae'r diweddariad hwn a'r cynnydd sy'n cael ei nodi yn dangos gwerth cynigion Comisiwn y Gyfraith i waith Llywodraeth Cymru.

## Cwmpas yr adroddiad

3. Mae adran 3C o Ddeddf Comisiynau'r Gyfraith 1965 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i adrodd yn flynyddol i Senedd Cymru ar y graddau y mae cynigion Comisiwn y Gyfraith wedi eu gweithredu yn ystod y flwyddyn dan sylw.

4. Fel y pennir gan y Ddeddf, mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â chynigion Comisiwn y Gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig sydd wedi eu gweithredu yng Nghymru yn ystod y flwyddyn, a chynigion sy'n ymwneud â materion datganoledig nad ydynt wedi eu gweithredu, gan gynnwys cynlluniau i weithredu a phenderfyniadau i beidio â gweithredu cynigion.

5. Mae'r adroddiad yn ymdrin ag adroddiadau Comisiwn y Gyfraith Cymru a Lloegr i'r graddau y maent yn ymwneud â materion a ddatganolwyd i Gymru.

## Cynigion nad ydynt wedi eu gweithredu

### *Cyfraith bywyd gwyllt (LC362)*

6. Yn 2015 cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith ei adroddiad ar *Gyfraith Bywyd Gwyllt*. Mae adroddiadau blaenorol wedi manylu ar yr ystyriaeth a roddwyd i rai o'r cynigion yn adroddiad Comisiwn y Gyfraith a'r modd y'u gweithredwyd.

7. Mae Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023, a ddaeth yn gyfraith yn ystod y cyfnod adrodd, yn cynnwys darpariaethau sy'n gwahardd yn llwyr y defnydd o faglau ac

atalyddion cebl. Ystyriwyd hyn yn yr adroddiad ar *Gyfraith Bywyd Gwyllt* ac roedd yn destun argymhelliad.

8. Cymru yw'r wlad gyntaf yn y Deyrnas Unedig i gyflwyno gwaharddiad llwyr. Daeth y gwaharddiad i rym ar 17 Hydref 2023. Yn ogystal â gweithredu cynnig Comisiwn y Gyfraith, mae hyn yn cyflawni ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu.

## Cynigion nad ydynt eto wedi eu gweithredu

### *Cyfraith cynllunio yng Nghymru (LC383)*

9. Cyflwynodd Comisiwn y Gyfraith ei adroddiad ar *Gyfraith Cynllunio yng Nghymru* yn 2018. Symleiddio a moderneiddio cyfraith cynllunio oedd ei sail ganolog. Nododd Llywodraeth Cymru ei safbwynt ar bob un o'r argymhellion yn yr adroddiad yn ei Hymateb Terfynol yn 2020. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyflwyno Bil i gydgrynhoi cyfraith cynllunio.

10. Yn ystod y cyfnod adrodd mae'r gwaith o lunio'r Bil wedi parhau i ddod yn ei flaen yn dda. Mae hwn yn brosiect mawr, cymhleth a thechnegol iawn. Amcangyfrifir y bydd y Bil oddeutu 475 tudalen o hyd (950 tudalen yn y ddwy iaith). Mae'r gwaith o'i lunio yn dal i fod yn seiliedig ar adroddiad Comisiwn y Gyfraith ac ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad hwnnw. Mae'r prosiect hefyd yn dal i elwa ar wybodaeth werthfawr Comisiwn y Gyfraith wrth iddo barhau i ymwneud â'r gwaith hwn.

11. Yn ei adroddiad blynyddol diweddar ar y rhaglen i wella hygyrchedd y gyfraith, cyhoeddodd y Cwnsler Cyffredinol y bydd y Bil yn cael ei gyflwyno i Senedd Cymru yn ystod haf 2024.

### *Cyfraith Etholiadol (LC389)*

12. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Bapur Gwyn ar weinyddu a diwygio etholiadol ym mis Hydref 2022. Ynddo roedd yn cyfeirio at ei nod mwy hirdymor o foderneiddio cyfraith etholiadol. Fel cam cyntaf, mae Llywodraeth Cymru yn llunio Gorchymyn Cynnal Etholiadau dwyieithog, wedi ei gydgrynhoi. Bydd hwn yn disodli Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 sy'n nodi sut y caiff etholiadau i'r Senedd eu cynnal ac sydd wedi ei ddiwygio'n rheolaidd.

### *Gwasanaethau Tacsi a Hurio Preifat (LC347)*

13. Rydym yn parhau i wneud cynnydd o ran ein hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu, 'Deddfu i foderneiddio'r sector tacsis a cherbydau preifat a mynd i'r afael â phroblemau croesffiniol'. Yn 2023 lluniwyd Papur Gwyn gennym er mwyn ymgynghori ar gynigion ar gyfer deddfwriaeth newydd i ymdrin â thacsis a cherbydau hurio preifat, ar ffurf Bil Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat, a gaiff ei gyflwyno cyn diwedd tymor y Senedd hon.

### *Lesddaliadau Preswyl (LC392) a'r Hawl i Reoli (LC393)*

14. Mae'r argymhellion o adroddiadau Comisiwn y Gyfraith ar ryddfreinio a'r hawl i reoli yn cael eu cyflwyno ar sail Cymru a Lloegr drwy'r Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad a Rhydd-ddaliad, a gyflwynwyd i Senedd y Deyrnas Unedig ar 27 Tachwedd 2023. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn briodol i fesurau o'r fath gael eu deddfu drwy ddeddfwriaeth y Deyrnas Unedig, ac mae dau Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol eisoes wedi eu gosod. Disgwylir y bydd rhagor ohonynt oherwydd y diwygiadau pellach sy'n debygol o gael eu gwneud wrth i'r Bil fynd ar ei hynt drwy Senedd y Deyrnas Unedig.

### *Tribiwnlysoedd Datganoledig yng Nghymru (LC403)*

15. Fel rhan o 13eg Rhaglen Diwygio'r Gyfraith Comisiwn y Gyfraith, cytunodd Comisiwn y Gyfraith a Llywodraeth Cymru i ymgymryd â phrosiect ar gyfer Cymru yn unig yn ymwneud â thribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru. Mae'r prosiect bellach wedi ei gwblhau, a chyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith ei adroddiad Tribiwnlysoedd Datganoledig yng Nghymru ym mis Rhagfyr 2021. Mae'r gwaith o weithredu argymhellion Comisiwn y Gyfraith yn mynd rhagddo, a chyhoeddodd Llywodraeth Cymru Bapur Gwyn System Dribiwnlysoedd newydd i Gymru ar 19 Mehefin 2023, yn nodi ei chynigion ar gyfer diwygio. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 2 Hydref 2023, a chafodd y crynodeb o'r ymatebion i'r Papur Gwyn ei gyhoeddi ddiwedd Ionawr 2024.

16. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu datblygu deddfwriaeth yn ystod y tymor y Senedd hon i sefydlu system dribiwnlys newydd ar gyfer tribiwnlysoedd datganoledig Cymru. Mae amseriad cyflwyno'r ddeddfwriaeth hon yn destun y prosesau ar gyfer pennu'r Rhaglen Ddeddfwriaethol.

### *Rheoleiddio Diogelwch Tomenni Glo yng Nghymru (LC406)*

17. Cafodd adroddiad Comisiwn y Gyfraith Rheoleiddio Diogelwch Tomenni Glo yng Nghymru ei gyhoeddi a'i osod gerbron y Senedd ar 24 Mawrth 2022. Daeth yr adolygiad i'r casgliad nad yw'r ddeddfwriaeth bresennol ar ddiogelwch tomenni glo, Deddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomenni) 1969, yn ymdrin yn effeithiol â rheolaeth hen domenni glo. Yn dilyn hynny cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Bapur Gwyn ar Ddiogelwch Tomenni Glo (Cymru) yn ystod haf 2022, ac yna ymateb llawn i'r adroddiad ar 22 Mawrth 2023. Roedd hwn yn derbyn, neu'n derbyn ar ffurf addasedig, y rhan fwyaf o'r argymhellion yn adroddiad Comisiwn y Gyfraith. Roedd y rhan fwyaf o'r addasiadau yn caniatáu i domenni nad ydynt yn domenni glo gael eu cynnwys yn y drefn arfaethedig.

18. Fel rhan o'r broses o ddatblygu'r Bil mae newidiadau pellach yn cael eu gwneud i'r system arfaethedig. Serch hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyflwyno deddfwriaeth yn ystod tymor y Senedd hon. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar Fil, y disgwylir iddo gael ei gyflwyno yn 2024, i ddarparu fframwaith rheoleiddiol ar gyfer rheoli hen domenni.

### *Cerbydau Awtomeiddiedig (LC404)*

19. Mae'r Bil Cerbydau Awtomeiddiedig, a gyflwynwyd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 8 Tachwedd 2023, yn gweithredu argymhellion yr adroddiad a luniwyd ar y cyd gan Gomisiwn y Gyfraith a Chomisiwn Cyfraith yr Alban ar Gerbydau Awtomeiddiedig, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2022. Roedd y cyd-adroddiad yn cynnwys nifer o argymhellion ar gyfer fframwaith rheoleiddiol newydd i reoli cyflwyno cerbydau awtomeiddiedig ar ffyrdd ac mewn mannau cyhoeddus eraill ym Mhrydain, a'u diogelwch parhaus.

20. Yn dilyn hynny gosododd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil gerbron y Senedd ar 24 Tachwedd 2023. Cafodd ei gyfeirio at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad. Bydd y ddau Bwyllgor yn adrodd yn ôl i'r Senedd erbyn 1 Mawrth 2024.

### *Galluedd Meddyliol ac Amddifadu o Ryddid (LC372)*

21. Deddfwriaeth gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig yw Deddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019, sy'n gymwys i Gymru a Lloegr. Bwriad y ddeddfwriaeth yw

cyflwyno'r Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid (y 'Liberty Protection Safeguards' neu'r 'LPS'), sef system newydd ar gyfer awdurdodi trefniadau gofal, cefnogaeth a thriniaeth pan fo'r rhain yn gyfystyr ag amddifadu o ryddid, ac nad oes gan y sawl sy'n derbyn gofal y gallu meddyliol i gytuno i'r trefniadau hynny. Roedd yr LPS i fod i ddisodli'r system bresennol, sef y Diogeliadau Amddifadu o Ryddid. Mae'r diogeliadau yn weithdrefnau angenrheidiol mewn cyfraith i ddiogelu Hawliau Dynol Erthygl 5 pobl (yr hawl i ryddid). Rhwng misoedd Mawrth a Gorffennaf 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru reoliadau drafft er mwyn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus. Byddai'r Rheoliadau hyn wedi cefnogi'r gwaith o weithredu'r LPS yng Nghymru. Ar 5 Ebrill 2023, fodd bynnag, cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig ei bwriad i ohirio gweithredu'r LPS tan y tymor Seneddol nesaf. Mewn ymateb, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ddatganiad Ysgrifenedig yn mynegi ei siom aruthrol gyda'r penderfyniad. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru grynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Rheoliadau drafft ar 7 Mehefin 2023.

## Cynigion nad ydynt i'w gweithredu

22. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cymryd unrhyw benderfyniadau i beidio â gweithredu cynigion mewn adroddiad gan Gomisiwn y Gyfraith yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

## Prosiectau Comisiwn y Gyfraith yn awr ac yn y dyfodol

23. Mae Comisiwn y Gyfraith yn gweithio ar amryw o brosiectau ar hyn o bryd, rhai ohonynt yn ymwneud â materion a ddatganolwyd i Gymru. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod wedi ymrwymo i weithio gyda Chomisiwn y Gyfraith i ddatblygu cynigion y mae modd eu gweithredu.